Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2 Ebrill 2012

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cyngor Bro Morgannwg

Diben y cynllun

Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) a'r dyletswyddau penodol i Gymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ymdrin ag wyth nodwedd warchodedig:

Oed	Hil
Anabledd	Crefydd neu gred
Ailbennu rhywedd	Rhyw
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o safbwynt y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Cyngor yn awdurdod cyhoeddus rhestredig, fel y diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n golygu bod yn rhaid iddo roi sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni ei swyddogaeth gyhoeddus:

- dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erlid anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu unrhyw anfanteision y bydd pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, neu'u lleihau gymaint ag sy'n bosibl;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd yr anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r dyletswyddau penodol yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol. Maent yn cynnwys y canlynol:

Amcanion	Hyfforddiant i staff
Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol	Caffael
Ymgysylltu	Adrodd yn flynyddol
Asesu effaith	Cyhoeddi
Gwybodaeth am gydraddoldeb	Adroddiadau gan Weinidogion Cymru

Gwybodaeth am gyflogaeth	Adolygu
Gwahaniaethau cyflog	Hygyrchedd

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn esbonio pa gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd ac yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae wedi defnyddio adborth gan bobl sy'n byw ym Mro Morgannwg i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu iddynt, gan ystyried eu nodweddion gwarchodedig.

Cyngor Bro Morgannwg

Mae ardal Cyngor Bro Morgannwg yn cynnwys 33,097 hectar o dir yn ogystal â 53 cilometr o arfordir, sy'n cynnwys 19 cilometr o Arfordir Treftadaeth. Mae'r Fro yn cynnwys canolfannau trefol a chymunedau gwledig sydd â phoblogaeth amrywiol.

Rhaid i'r egwyddorion a ddisgrifir yn y ddyletswydd gyffredinol fod yn sail i ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu:

Byw Ailgylchu a gwastraff Traffig a phriffyrdd Cynllunio Ysgolion Amgylchedd Trafnidiaeth Gofal cymdeithasol	**Gweithio** Ardrethi busnes Addysg a sgiliau Adfywio Trwyddedu Cymorth busnes Iechyd yr amgylchedd Safonau masnach
Mwynhau Canolfannau cymunedol Yr arfordir Parciau a gerddi Celfyddydau a diwylliant Digwyddiadau Hamdden a gweithgareddau Llyfrgelloedd	**Ein Cyngor** Ymgynghori Cwyno a chanmol Budd-daliadau tai Swyddfa'r wasg Cyngor Treth y Cyngor Swyddi Eiddo ar werth neu i'w osod

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb ym Mro Morgannwg yn gallu cael mynediad teg a chyfartal i'r gwasanaethau hyn, a'u bod yn gallu cael eu trin yn deg ac yn gyson wrth iddynt ymwneud â'r Cyngor a chael eu cyflogi ganddo.

Ceir ymrwymiad yng Nghynllun Corfforaethol 2010-2014 y Cyngor i feithrin cymdeithas gref, iach a chyfiawn trwy ddiwallu anghenion amrywiol y bobl

sy'n byw ym Mro Morgannwg, gan hyrwyddo lles personol, cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal.

Gwybodaeth am gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i gasglu gwybodaeth er mwyn cynhyrchu'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb.

Defnyddiodd y ffynonellau canlynol:

- ymchwil cenedlaethol, megis adroddiadau 'Pa mor deg yw Cymru?' a 'Mwy nag ystadegyn';
- gwybodaeth o ddogfennau'r Cyngor, megis ei Strategaeth Gymunedol, ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Cydraddoldeb Sengl;
- gwybodaeth a data lleol;
- adborth gan bobl sy'n cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchodedig a wahoddwyd i ddigwyddiadau ymgysylltu a grwpiau ffocws yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2011 i'n helpu i ddatblygu a blaenoriaethu amcanion cydraddoldeb.

Mae'r sefydliadau a'r mudiadau a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgysylltu i'w gweld yn y crynodeb o'r adborth, a ddarperir yn Atodiad 1.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'r modd y mae'n casglu ac yn dadansoddi data, er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y sefydliad a sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth. Caiff hynny ei adlewyrchu yn un o'i amcanion. Mae angen i'r Cyngor wneud hynny yng nghyswllt gwybodaeth am gydraddoldeb a gwybodaeth am gyflogaeth. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, a chaiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar y tudalennau ar gyfer cydraddoldeb sydd ar wefan y Cyngor, wrth iddi ddod ar gael.

Amcanion cydraddoldeb

Rhaid i'r Cyngor bennu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd o leiaf. Dylid datblygu'r amcanion hyn trwy gynnwys pobl sy'n cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchodedig (fel y rhestrir uchod).

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ym mis Tachwedd 2011 i glywed barn grwpiau cynrychiadol a gofyn am adborth ynghylch rhai amcanion drafft, er mwyn helpu i lunio blaenoriaethau'r Cyngor.

Mae'r sylwadau a wnaed gan y trigolion yn ystod y broses ymgysylltu'n awgrymu bod gan yr amcanion drafft ffocws da a'u bod yn mynd i'r afael â materion sy'n flaenoriaeth i drigolion yn y Fro. Ymddengys fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cadarnhau bod y data ymchwil a gasglwyd yn genedlaethol (ac a ddefnyddiwyd i ddrafftio'r amcanion) yn adlewyrchu profiad trigolion y Fro.

Roedd yn bwysig i'r sawl a gymerodd ran bod yr amcanion yn cael eu hysgrifennu mewn modd sy'n golygu eu bod yn eglur ac yn hawdd eu deall, a'u bod yn adlewyrchu'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gan y cyfranogwyr.

Roedd hefyd yn bwysig i bobl bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn egluro sut y bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion hyn yn cael ei asesu a'i fonitro, a sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r trigolion. Bydd gwybodaeth am gynnydd yn cael ei rhannu trwy gyflwyno adroddiad blynyddol.

Cytunwyd yn gyffredinol y byddai nifer o gamau gweithredu'n cynorthwyo pawb sydd â nodweddion gwarchodedig, a chytunwyd y dylid blaenoriaethu'r camau gweithredu hynny, sef:

- sicrhau gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau gwell dealltwriaeth o bwy sy'n defnyddio gwasanaethau;
- sicrhau gwell mynediad i wasanaethau;
- sicrhau mwy o hyder i adrodd ynghylch achosion o wahaniaethu ac aflonyddu.

Yn ogystal, ceir amcan sy'n ymwneud â gwella'r modd y mae'r Cyngor yn casglu ac yn dadansoddi data er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y sefydliad a sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth.

Yn ystod y broses ymgysylltu ynghylch yr amcanion drafft, cynhaliodd y Cyngor drafodaethau â'r grwpiau cynrychiadol ynghylch y materion sy'n ymwneud â chyfleoedd dysgu hygyrch i ddatblygu sgiliau a gwella cyflogadwyedd.

Mae gwaith sy'n ymwneud â gwella cyfleoedd dysgu wedi'i nodi yn Strategaeth Gymunedol 2011-21 a Chynllun Corfforaethol 2010-14 (a ddiwygiwyd ym mis Rhagfyr 2011), ac ar hyn o bryd nid yw'n waith sydd wedi'i flaenoriaethu ar ffurf un o'r amcanion cydraddoldeb. Yn hytrach, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar amcanion cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r pedwar maes uchod ac sy'n effeithio ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig, ac mae'n canolbwyntio ar un amcan sy'n ymwneud â thrais yn y cartref, sy'n flaenoriaeth genedlaethol.

O ganlyniad i waith ymgysylltu, mae'r amcanion canlynol wedi'u blaenoriaethu.

Casglu data er mwyn monitro mynediad i wasanaethau

1. Cyhoeddi data erbyn 31 Mawrth 2013 i ddangos sut y caiff gwasanaethau ar draws y Cyngor eu defnyddio gan bobl o grwpiau gwarchodedig, a

defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio a gweithredu gwell defnydd o wasanaethau a gwell mynediad i wasanaethau erbyn 31 Rhagfyr 2013. Gwerthuso'r cynnydd a wnaed erbyn 30 Ebrill 2015.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Roedd cyfranogwyr yn ystod pob cam o'r broses ymgynghori yn teimlo bod casglu data monitro effeithiol yn hanfodol i adnabod achosion o wahaniaethu.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Yn achos unrhyw gynnydd yn y data monitro a gesglir, rhaid esbonio'n glir o'r dechrau pam yr ydym yn casglu data ac at ba ddiben y bydd yn cael ei ddefnyddio.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Rhaid defnyddio'r un broses/categorïau ar draws pob gwasanaeth.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Ar hyn o bryd, ceir bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael am gydraddoldeb ac ni chaiff nodweddion gwarchodedig eu monitro'n gyson.	Data'r Cyngor
"Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, cymharol ychydig a wyddom am yr anghyfartaledd a wynebodd yr amryfal gredoau crefyddol neu lesbiaid, pobl hoyw, deurywiol a thrawsrywedd, a phrin hefyd yw'r wybodaeth am Sipsiwn, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Ond nid yw absenoldeb unrhyw dystiolaeth na'r niferoedd bychan sy'n perthyn i'r grwpiau dan sylw'n golygu nad oes anghyfartaleddau i'w datrys. Y mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod llawer o'r grwpiau hyn yn wynebu anghyfartaledd a rhagfarn, er enghraifft, cyfraddau uwch na'r cyffredin o fwlio ac aflonyddu."	Pa mor deg yw Cymru?
"Byddai defnydd gwell o ffynonellau data presennol, a thechnegau casglu data mwy soffistigedig, yn caniatáu i ni ddeall yn well yr anghenion a dyheadau amrywiol sydd gan wahanol bobl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn deall p'un a sut yr ydym yn gwneud cynnydd fel cymdeithas tuag at well cydraddoldeb."	Pa mor deg yw Cymru?

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Cynhyrchu ffurflen fonitro safonol sy'n cynnwys canllawiau ynghylch casglu a monitro data cydraddoldeb, er mwyn i bawb yn y Cyngor ei defnyddio.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	2 Ebrill 2012 – 30 Ebrill 2012
Adolygu'r modd y mae gwasanaethau'n casglu data ynghylch nodweddion gwarchodedig ar draws y Cyngor, nodi'r bylchau mewn gwybodaeth a sefydlu system ar gyfer casglu gwybodaeth er mwyn cael trosolwg corfforaethol a llunio adroddiadau blynyddol.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	30 Ebrill 2012 – 30 Mehefin 2012
Gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu i wella'r modd y caiff data ei gasglu a'r modd yr adroddir yn ei gylch, lle ceir bylchau yn y wybodaeth, er mwyn hwyluso dadansoddiadau rheolaidd o'r modd y mae pob grŵp gwarchodedig yn defnyddio gwasanaethau.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Gorffennaf 2012 – Rhagfyr 2012
Rhoi cynllun gweithredu ar waith i wella'r modd y caiff data am y defnydd a wneir o wasanaethau'n ôl nodwedd warchodedig ei gasglu a'i ddadansoddi, a'r modd yr adroddir yn ei gylch.	Penaethiaid Gwasanaeth	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2016
Cynllunio a gweithredu ymgyrch i helpu pobl i ddeall beth yr ydym yn ei wneud a pham mewn perthynas â monitro'r defnydd o wasanaethau'n ôl nodwedd warchodedig.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol Rheolwr Cyfathrebu	1 Medi 2012 – 31 Ionawr 2013
Nodi camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaeth i wella'r defnydd a wneir o wasanaethau a gwella mynediad iddynt, gan ystyried materion a godwyd yn ystod gwaith ymgysylltu ynghylch amcanion cydraddoldeb a chan gynnwys y sawl sy'n cynrychioli pobl o grwpiau gwarchodedig i gael eu cymorth. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys targedau ar gyfer gwella lefelau defnydd ar gyfer pob nodwedd warchodedig.	Penaethiaid Gwasanaeth Y Tîm Gwella a Datblygu	31 Hydref 2012 – 31 Mawrth 2013
Gwerthuso a yw camau gweithredu wedi	Penaethiaid	1 Ebrill 2014 –

gwella mynediad i grwpiau gwarchodedig, a nodi a oes angen cymryd camau gweithredu pellach.	Gwasanaeth	30 Mehefin 2014

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√
Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Gwella hygyrchedd dogfennau cyhoeddus

2. Adolygu a gwella canllawiau ynghylch ysgrifennu dogfennau, erbyn 30 Tachwedd 2012, fel y gall y cyhoedd eu darllen yn hawdd, a chyflwyno system erbyn 31 Mawrth 2013 sy'n golygu mai dim ond dogfennau hawdd eu darllen y caniateir eu cyhoeddi.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Rhaid sicrhau bod gwybodaeth o bob math ar gael mewn fformat hygyrch. Yn rhy aml, ni chaiff gwybodaeth ei darparu mewn iaith ddealladwy. Mae hynny'n wir o safbwynt oed, ethnigrwydd ac anabledd - nid yw darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu deall llawer o'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae cael mynediad i wybodaeth am wasanaethau Tai yn arbennig o anodd.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae cryn dipyn o wybodaeth ar gael ar wefannau, ond nid yw'r fformat hwn yn briodol ar gyfer llawer o'r trigolion.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae nifer o grwpiau gwirfoddol a gwasanaethau cymorth yn gweithredu yn y Fro ac yng Nghaerdydd, ond nid ydynt yn cael eu hyrwyddo'n dda. Mae angen dulliau gwell o gyfeirio pobl at wybodaeth.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae iaith glir yn hanfodol i wella mynediad.	Digwyddiadau ymgysylltu'r

	Cyngor – Tachwedd 2011

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Adolygu a gwella'r canllawiau ynghylch ysgrifennu dogfennau hawdd eu darllen, gan drafod â mudiadau gwirfoddol sydd ag arbenigedd yn y maes hwn i gael eu cymorth.	Rheolwr Cyfathrebu	2 Ebrill 2012 – 30 Tachwedd 2012
Datblygu a gweithredu mesurau rheoli i sicrhau mai dim ond dogfennau sy'n bodloni'r safonau hyn a gaiff eu cyhoeddi.	Rheolwr Cyfathrebu	1 Rhagfyr 2012 – 31 Mawrth 2013
Datblygu a chyhoeddi canllawiau newydd ynghylch cynhyrchu dogfennau hawdd eu darllen.	Rheolwr Cyfathrebu	1 Ionawr 2013 – 1 Ebrill 2013
Codi ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd ymysg y staff.	Rheolwr Cyfathrebu	1 Ebrill 2013 – 30 Mehefin 2013
Adolygu dogfennau a gyhoeddwyd ers i'r safonau newydd gael eu cyflwyno, er mwyn gwerthuso a fu unrhyw welliant, a chymryd camau priodol i gynnal safonau newydd.	Rheolwr Cyfathrebu	1 Gorffennaf 2014 – 30 Medi 2014

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√
Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Codi ymwybyddiaeth

3. Codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus o ran cydraddoldeb, a'r materion sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ymysg staff y Cyngor a thrigolion Bro Morgannwg erbyn 31 Mawrth 2016.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Rhaid hyfforddi'r staff i ddeall anghenion unigolion yn well. Dyma'r unig ffordd o sicrhau ymwybyddiaeth a pharch gan y naill ochr mewn perthynas â'r llall.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Roedd y grwpiau ffocws yn teimlo, yn enwedig ar gyfer yr amcan hwn, y dylai Cyngor Bro Morgannwg osod y safon ar gyfer yr ardal a bod yn fodel o arfer da.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Roedd y grwpiau ffocws yn cytuno y byddai'n rhaid i unrhyw raglen codi ymwybyddiaeth fod yn rhaglen raddol wedi'i thargedu yn hytrach nag yn rhaglen gyffredinol ar 'faterion yn ymwneud â chydraddoldeb'.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae lefel y wybodaeth a'r cymorth yng nghyswllt yr holl faterion sy'n ymwneud ag anabledd ar draws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn amrywio'n fawr. Dylai lefel y wybodaeth a'r cymorth fod yr un fath ym mhob man.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae codi ymwybyddiaeth o anghenion unigolion yn hanfodol. Nid yw'r staff yn deall y problemau sy'n effeithio ar ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth, ac felly gallant ofni rhoi cleientiaid mewn perygl neu ofni eu tramgwyddo neu dramgwyddo pobl eraill – nid yw'r perygl hwnnw byth yn un difrifol.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
"Ar y brig, mae'r angen i newid agweddau ac ymddygiad drwy godi ymwybyddiaeth a thrwy addysg yn flaenoriaeth gan bawb. Mae pobl yn teimlo bod newid canfyddiadau cyhoeddus y materion yn orchwyl i ystod eang o weithredwyr."	Mwy nag ystadegyn
"Soniodd y rhan fwyaf o bobl am bwysigrwydd agwedd staff wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Dywedon nhw y byddai systemau symlach sy'n cydnabod nad yw'r un maint yn addas i bawb yn gam mawr ymlaen."	Mwy nag ystadegyn

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Dadansoddi anghenion yr Aelodau, y Rheolwyr a'r staff o ran hyfforddiant fel y gellir targedu hyfforddiant ar gydraddoldeb	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ebrill 2012 – 31 Awst 2012

yn briodol.		
Cynllunio rhaglen hyfforddiant sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â phob nodwedd warchodedig, ac sy'n cynnwys hyfforddiant ar ymdrin ag adroddiadau ynghylch achosion o aflonyddu.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Medi 2012 – 31 Hydref 2012
Dechrau gweithredu rhaglen hyfforddiant ar gydraddoldeb.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ionawr 2012 – 31 Mawrth 2016
Cynllunio a gweithredu proses i werthuso pa mor effeithiol yw hyfforddiant ar gydraddoldeb.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013
Cynllunio ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd i helpu i hybu dealltwriaeth o nodweddion gwarchodedig.	Rheolwr Cyfathrebu a'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013
Gweithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd i helpu i hybu dealltwriaeth o nodweddion gwarchodedig.	Rheolwr Cyfathrebu a'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	O 1 Ebrill 2013 ymlaen
Gwerthuso a fu'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn effeithiol.	Rheolwr Cyfathrebu / Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ebrill 2014 – 30 Mehefin 2014

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√
Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig

4. Datblygu canllawiau erbyn 31 Mawrth 2013 ar ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu, adolygu neu newid gwasanaethau, gan werthuso'r canlyniadau erbyn 31 Gorffennaf 2015.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Ceir canfyddiad bod gwaith ymgynghori weithiau'n broses adweithiol. Yn hytrach, dylid trafod yn barhaus â defnyddwyr gwasanaeth.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae gwasanaethau eiriolaeth yn hanfodol i gynnwys pob rhan o'r gymuned a chynnwys trigolion o grwpiau gwarchodedig yn y broses o wneud penderfyniadau.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Yn aml, caiff safbwyntiau a barn pobl ifanc a phobl hŷn eu diystyru ar sail oed.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae gwariant ar bobl hŷn yn anghymesur o isel. Dylid egluro'r rhesymau am hynny.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
I drigolion ag anabledd, mae mynediad corfforol yn dal yn broblem fawr. Nid oes gan lawer o adeiladau rampiau effeithiol, dolenni clyw sy'n gweithio, er enghraifft. Mae bron yn amhosibl cael y rhan fwyaf o fusnesau preifat i chwarae eu rhan. Mae mynediad yn hybu integreiddio.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
"...mae'r dystiolaeth... yn awgrymu nad yw'r rheiny sy'n perthyn i grwpiau a ddiogelir byth wedi cael cyfle i gyfranogi'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau a mwynhau'r un pŵer a'r un dylanwad â hwnnw y mae rhai grwpiau'n ei fwynhau ers degawdau."	Pa mor deg yw Cymru?
"Soniodd llawer o bobl am ran cyngor ac eiriolaeth fel rhaff achub i ymdopi â thasgau bob dydd a deall hawliau."	Mwy nag ystadegyn

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Datblygu canllawiau ynghylch cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu, adolygu neu newid gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau, gan gynnwys rhoi adborth iddynt ynghylch canlyniadau'r broses o'u cynnwys.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	2 Ebrill 2012 – 31 Rhagfyr 2012
Codi ymwybyddiaeth o'r canllawiau ymysg holl staff y Cyngor.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013
Gwerthuso a yw'r canllawiau'n golygu bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn fwy helaeth mewn penderfyniadau am wasanaethau.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol	1 Ebrill 2015 – 31 Gorffennaf 2015

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√
Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Adrodd ynghylch achosion o aflonyddu a gwahaniaethu

5. Cynyddu'r defnydd a wneir o'r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb a'r system gwyno er mwyn adrodd ynghylch achosion o aflonyddu ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac achosion o wahaniaethu yn eu herbyn, a gwerthuso llwyddiant erbyn 31 Mawrth 2016.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Dim ond pum adroddiad ynghylch achosion a gafwyd ers lansio'r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb ym mis Medi 2009.	Gwybodaeth y Cyngor
Gan nad trigolion ag anabledd yw'r unig bobl sy'n dioddef	Digwyddiadau

achosion o aflonyddu, roedd y grwpiau ffocws yn teimlo... y dylai geiriad yr amcan gyfeirio efallai at aflonyddu ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.	ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Teimlwyd hefyd ….y dylai codi ymwybyddiaeth o wasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag achosion o aflonyddu, neu atal achosion o aflonyddu, arwain at fwy o adrodd ynghylch achosion o'r fath, ac felly byddai hynny'n rhoi'r argraff bod cynnydd yn nifer yr achosion o drais domestig.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Awgrymwyd y byddai "mwy o hyder i adrodd ynghylch achosion o aflonyddu" neu "gwaith i wella'r broses o adrodd ynghylch pwy sy'n aflonyddu ar bwy" (neu eiriau tebyg) yn effeithiol.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli beth yw 'aflonyddu' mewn gwirionedd. Rhaid mynd i'r afael â hynny.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Nid yw llawer o drigolion yn teimlo eu bod yn gallu cwyno am achosion o wahaniaethu, rhag ofn y byddant yn cael gwasanaeth o ansawdd is yn y dyfodol.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
Mae llawer o unigolion â nodweddion gwarchodedig yn aml yn teimlo bod eu sylwadau/cwynion/barn yn cael eu diystyru gan gyrff cyhoeddus – mae hynny'n wahaniaethu anuniongyrchol.	Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor – Tachwedd 2011
"Dynion ifanc a grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddioddef troseddau treisgar yn gyffredinol, a menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigon o ran trais rhywiol (yn cynnwys treisio) a thrais domestig. Menywod, pobl fethedig, pobl hŷn, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o'r grwpiau sosio-economaidd is sydd fwyaf tebygol o fod ofn trosedd dreisgar."	Pa mor deg yw Cymru?
"O ganlyniad i lefelau isel o hyder ni chaiff nifer arwyddocaol o droseddau casineb eu sôn amdanynt ac ni cheir cyfiawnder yn aml. Mae atal troseddau casineb yn gam hanfodol tuag at adeiladu perthynas dda rhwng grwpiau yn y gymdeithas. Lle bo troseddau casineb yn digwydd, bydd cynyddu'r gyfradd o sôn amdanynt yn orchwyl pwysig."	Pa mor deg yw Cymru?

“Mae pobl o’r lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a thrawsryweddol i gyd yn wynebu risg troseddau casineb a bwlio.”	Pa mor deg yw Cymru?
“Mae llawer o bobl yn adrodd eu bod yn profi gwahaniaethu, aflonyddu a chamdriniaeth. Mae tua 10% o’r boblogaeth ar y cyfan wedi profi digwyddiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf. Mae rhai grwpiau, fel pobl ifanc a phobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl trawsryweddol, pobl â chyflyrau iechyd meddwl a phobl hŷn yn adrodd lefelau llawer uwch o wahaniaethu ac aflonyddu – dywedodd hyd at draean o’r holl bobl anabl rhwng 16-39 oed eu bod wedi dioddef gwahaniaethu neu aflonyddu.”	Pa mor deg yw Cymru?
“Mae digwyddiadau sy’n targedu pobl oherwydd pwy ydynt (e.e. troseddau casineb) yn cael eu tan-adrodd, sy’n golygu nad yw llawer o ddioddefwyr yn gallu cael mynediad i’r cymorth maent ei angen, neu i sicrhau cyfiawnder.”	Pa mor deg yw Cymru?
“Soniodd llawer o bobl am ran cyngor ac eiriolaeth fel rhaff achub i ymdopi â thasgau bob dydd a deall hawliau.”	Mwy nag ystadegyn

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Adolygu’r defnydd a wneir o’r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb er mwyn pennu meincnod ar gyfer y defnydd a wneir ohoni ar hyn o bryd, a nodi rhwystrau i adrodd ynghylch troseddau casineb.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol/Rheolwr Gweithredol – Cysylltiadau Cwsmeriaid	1 Ionawr 2013 – 30 Mehefin 2013
Adolygu’r system adrodd ynghylch troseddau casineb, ac ymgorffori’r gallu i gofnodi nodweddion gwarchodedig (lle gellir gwneud hynny’n gyfrinachol ac yn sensitif) er mwyn gallu dadansoddi adroddiadau’n ôl y nodweddion hyn.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol/Rheolwr Gweithredol – Cysylltiadau Cwsmeriaid	1 Ionawr 2013 – 30 Mehefin 2013
Datblygu cynllun gweithredu i wella’r defnydd a wneir o’r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb, a’r modd y defnyddir y wybodaeth hon i leihau achosion o aflonyddu.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol/Rheolwr Gweithredol – Cysylltiadau Cwsmeriaid	1 Gorffennaf 2013 – 30 Medi 2013
Datblygu a gweithredu ymgyrch codi	Swyddog Cydraddoldeb	1 Hydref

ymwybyddiaeth i hyrwyddo'r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb, gan gynnwys canllawiau ynghylch beth yw aflonyddu a sut y gellir darparu ar gyfer defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.	Corfforaethol/Rheolwr Gweithredol – Cysylltiadau Cwsmeriaid	2013 – 31 Mawrth 2014
Gwerthuso a yw'r cynllun gweithredu a'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi gwella'r defnydd a wneir o'r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb a'r camau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael ag aflonyddu.	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol/Rheolwr Gweithredol – Cysylltiadau Cwsmeriaid	1 Ebrill 2014 – 30 Mehefin 2014
Adolygu'r system gwyno i bennu ac argymell y ffordd orau o fonitro nodweddion gwarchodedig y sawl sy'n cwyno, sicrhau bod modd i grwpiau gwarchodedig ddefnyddio'r system yn rhwydd ac ystyried defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.	Swyddogion Cwynion	1 Ebrill 2012 – 31 Rhagfyr 2012
Gweithredu'r argymhellion a monitro'n rheolaidd y defnydd a wneir o'r system gwyno'n ôl nodwedd warchodedig.	Swyddogion Cwynion	1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2016
Hyrwyddo'r system gwyno i'r cyhoedd, gan gynnwys y modd yr ymdrinnir â chwynion am wahaniaethu a'r rhesymau pam y caiff nodweddion gwarchodedig eu monitro.	Swyddogion Cwynion	1 Medi 2012 – 31 Awst 2013
Gwerthuso a yw'r system gwyno'n cael ei defnyddio'n fwy helaeth gan bobl â nodweddion gwarchodedig.	Swyddogion Cwynion	1 Medi 2013 – 31 Rhagfyr 2013

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√
Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Trais domestig

6. Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer trais domestig a chynyddu hyder pobl i'w defnyddio, erbyn 31 Mawrth 2016.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
"Mae nifer y troseddau rhywiol difrifol ym Mro Morgannwg wedi cynyddu o gymharu â 2009-10. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r dioddefwr yn adnabod yr ymosodwr sydd gan amlaf yn aelod o'r teulu, yn gyfaill neu'n rhywun y mae'n ei adnabod."	Strategaeth Gymunedol 2011-21
Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer trais domestig.	Cynllun Corfforaethol 2010 – 14 y Cyngor (a ddiwygiwyd ym mis Rhagfyr 2011)
"Mae un o bob pedair o fenywod yn Lloegr a Chymru wedi profi rhyw ffurf o gamdriniaeth ddomestig ers cyrraedd 16 oed."	Pa mor deg yw Cymru?
"Mae tri-chwarter o'r troseddau cam-drin domestig yn droseddau ailadroddus."	Pa mor deg yw Cymru?
"Mae menywod yng Nghymru yn ddwywaith mwy tebygol na dynion o fod yn ddioddefwyr trais rhywiol, neu drais nad yw'n rhywiol gan eu partner neu deulu."	Pa mor deg yw Cymru?

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Adolygu'r modd y defnyddir gwasanaethau gan bobl â nodweddion gwarchodedig a mynd i'r afael â rhwystrau, gan gynnwys defnyddio cyfieithwyr proffesiynol yn hytrach na theulu neu ffrindiau.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	2 Ebrill 2012 - 31 Rhagfyr 2012
Datblygu cynllun gweithredu i ddileu rhwystrau sylweddol i ddefnyddio gwasanaethau sy'n ymdrin â thrais domestig.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013
Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i ddileu	Cydlynydd	1 Ebrill 2013 –

rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau sy'n ymdrin â thrais domestig.	Camdriniaeth Ddomestig	31 Mawrth 2014
Cynllunio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael a'r mathau o gamau gweithredu a gymerir yng nghyswllt adroddiadau ynghylch trais domestig, gan gynnwys cyfeirio pobl at fudiadau gwirfoddol.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013
Gweithredu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014
Monitro'r defnydd a wneir o wasanaethau cymorth ac adrodd yn ei gylch yn rheolaidd, a defnyddio'r wybodaeth i gynyddu'r defnydd o dargedau.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	O 1 Ebrill 2013 ymlaen
Adolygu'r modd y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn defnyddio gwasanaethau.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Ebrill 2014 – 30 Mehefin 2014
Datblygu cynllun gweithredu sy'n dileu'r rhwystrau a nodwyd, sy'n parhau i atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau, a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Gorffennaf 2014 – 30 Medi 2014
Parhau i fonitro'r defnydd a wneir o wasanaethau gan bobl â nodweddion gwarchodedig, ac adrodd yn ei gylch.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Hydref 2012 – 31 Rhagfyr 2015
Gwerthuso a yw camau gweithredu ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth wedi bod yn llwyddiannus, ac argymell ffyrdd o symud ymlaen.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Medi 2015 – 31 Rhagfyr 2015
Adrodd ynghylch gwaith gwerthuso, gan gynnwys adrodd wrth bobl â nodweddion gwarchodedig.	Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig	1 Ionawr 2016 – 31 Mawrth 2016

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed	√	Hil	√
Anabledd	√	Crefydd neu gred	√
Ailbennu rhywedd	√	Rhyw	√
Priodas a phartneriaeth sifil	√	Cyfeiriadedd rhywiol	√

Beichiogrwydd a mamolaeth	√		

Gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau

Rhaid i'r Cyngor ddatblygu amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch o ran cyflog a nodir rhwng y rhywiau. Rhaid i'r amcan hwn fynd i'r afael ag achosion y gwahaniaeth o ran cyflog, os yw'n eithaf tebygol o fod yn gysylltiedig â rhyw.

Cynhaliodd y Cyngor asesiad o'r effaith y byddai ei broses arfaethedig ar gyfer gwerthuso swyddi a'i strwythur cyflogau a graddio yn ei chael ar gydraddoldeb. Nododd yr asesiad y bydd bwlch o 10.94% o ran cyflog rhwng y rhywiau, sy'n is o lawer na'r hyn a welir mewn Cynghorau tebyg ac sy'n gymaradwy â'r Arolwg Blynyddol o Enillion Aelwydydd ar gyfer yr economi yn ei chyfanrwydd. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn disgwyl y dylid ymchwilio i fwlch sy'n fwy na 5%.

Y prif reswm am y bwlch parhaus o ran cyflog yw cyfansoddiad y gweithlu – 75.8% yn fenywod a 24.2% yn ddynion, a cheir cyfran uwch o fenywod mewn nifer fach o swyddi ar lefelau is y strwythur cyflogau.

Mae'r broses gwerthuso swyddi'n sicrhau dull teg a systematig o benderfynu ar gyflog ar gyfer swydd, ond ni all ymdrin â materion sy'n codi o ganlyniad i wahanu galwedigaethol.

Gwahanu galwedigaethol yw pan fo llawer o ddynion a llawer o fenywod mewn gwahanol fathau o swyddi (gwahanu llorweddol) neu mewn gwahanol raddau (gwahanu fertigol). Mae'r mathau hyn o wahanu'n digwydd am nifer o resymau, gan gynnwys y canlynol:

- stereoteipio ar sail rhyw – pan fo dynion a menywod yn gweithio mewn swyddi y mae dynion a menywod wedi gweithio ynddynt yn draddodiadol, lle mae'r gwaith a wneir gan fenywod, fel rheol, yn perthyn i raddau cyflog is;

- oriau gweithio anhyblyg – pan fo menywod sydd â phlant neu gyfrifoldebau gofalu'n cael eu cyfyngu o ran cyfleoedd i gael gwaith sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau gofalu, sy'n golygu'n aml y cânt eu gorfodi i wneud gwaith rhan amser sydd â chyflog isel.

Ni all y Cyngor oresgyn yr ystod eang o ffactorau mewn cymdeithas sy'n arwain at wahanu galwedigaethol ac at wahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, gall chwarae ei ran drwy nodi'r hyn y gall ei wneud yn rhesymol o fewn cwmpas ei waith.

I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r amcan cydraddoldeb canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau:

7. Datblygu cynllun gweithlu erbyn 31 Rhagfyr 2013, sy'n cynnwys camau gweithredu i leihau'r bwlch o ran cyflog rhwng y rhywiau erbyn 31 Rhagfyr 2015; gwerthuso cynnydd a chynllunio'r cam gweithredu nesaf erbyn 31 Mawrth 2016.

Pam yr ydym yn bwriadu gwneud hynny?	
Gwybodaeth am gydraddoldeb	**Ffynhonnell**
Mae asesiad effaith y cynllun gwerthuso swyddi'n dangos bwlch o fwy na 10% o ran cyflog rhwng y rhywiau, ac mae'n argymell y dylai strategaethau'r gweithlu fod yn gysylltiedig â'r hyn a gyflawnwyd drwy'r system gwerthuso swyddi.	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
"Mae gwahaniad galwedigaethol – y crynodiad o wahanol grwpiau i alwedigaethau penodol – yn gallu bod yn llorweddol, dros wahanol sectorau o'r farchnad waith, ac yn fertigol, rhwng gwahanol lefelau o'r un sector. Canfu'r adolygiad o dystiolaeth ymchwil wahaniad galwedigaethol mawr yng Nghymru ar draws yr holl nodweddion a amddiffynnir, er bod ansawdd ac amseroldeb y data yn amrywio. Mae peth tystiolaeth bod gwahaniad galwedigaethol yn ôl rhywedd yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain."	Pa mor deg yw Cymru?

Sut y byddwn yn cyflawni hynny?		
Cam gweithredu	**Gan bwy**	**Amserlen**
Datblygu cynllun gweithlu sy'n cynnwys camau gweithredu i leihau'r bwlch o ran cyflog rhwng y rhywiau.	Pennaeth Adnoddau Dynol	2 Ebrill 2012 – 31 Rhagfyr 2013
Rhoi cynllun gweithredu ar waith i leihau'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau ac adrodd yn flynyddol ynghylch cynnydd.	Pennaeth Adnoddau Dynol	1 Ionawr 2014 – 31 Rhagfyr 2015
Gwerthuso cynnydd a chreu cynllun gweithredu newydd.	Pennaeth Adnoddau Dynol	1 Ionawr 2016 – 31 Mawrth 2016

Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n ymdrin â hwy?			
Oed		Hil	
Anabledd		Crefydd neu gred	
Ailbennu rhywedd		Rhyw	√

Priodas a phartneriaeth sifil		Cyfeiriadedd rhywiol	
Beichiogrwydd a mamolaeth			

Pan fydd y Cyngor wedi gwella'i ddulliau o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am gyflogaeth, bydd mewn sefyllfa well i nodi a oes angen amcanion ychwanegol i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau o ran cyflog sy'n codi o nodweddion gwarchodedig eraill. Mae tîm prosiect wedi'i lunio i fynd i'r afael â hynny.

Effaith amcanion ar nodweddion gwarchodedig

Mae mwyafrif yr amcanion hyn yn berthnasol i bob un o'r nodweddion gwarchodedig. Os cânt eu bodloni, byddant yn cryfhau'r sylfaen ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd y Cyngor yn deall yr hyn y mae angen ei wneud nesaf o ran diwallu anghenion grwpiau gwarchodedig, a bydd ganddo fwy o wybodaeth am hynny.

Dyna pam y bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r amcanion trawsbynciol hyn yn hytrach na chyhoeddi un amcan ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig.

Monitro a chyhoeddi canlyniadau

Caiff cynnydd o ran bodloni'r amcanion cydraddoldeb ei werthuso'n flynyddol, ac adroddir yn ei gylch yn flynyddol wrth yr uwch dîm rheoli, y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb a'r Cabinet.

Caiff yr adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau y mae'n eu cymryd i fodloni'r amcanion cydraddoldeb.

Caiff gwybodaeth arall am gydraddoldeb a chyflogaeth ei chyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor hefyd.

Asesu effaith

Mae gan y Cyngor broses sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer gwerthuso'r effaith y mae unrhyw bolisïau neu arferion a gaiff eu cynnig, eu hadolygu neu'u diwygio'n debygol o'i chael ar grwpiau gwarchodedig. Mae'r broses wedi'i diweddaru i gynnwys pob un o'r nodweddion gwarchodedig.

Gellir gweld yr adnodd asesu ac enghreifftiau a gyhoeddwyd ar y dudalen ar gyfer cydraddoldeb sydd ar wefan y Cyngor.

Mae'r broses wedi'i defnyddio i asesu effaith debygol y gyllideb flynyddol a nodi i ba raddau y mae penderfyniadau'n debygol o gael effaith sylweddol ar

grwpiau gwarchodedig, er mwyn gallu cynnal asesiad llawn o effaith lle bo'n briodol.

Pan fo effaith sylweddol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r manylion ar ei wefan.

Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar asesiadau effaith o ran swyddogaethau, ac mae'n adeiladu ar y gwersi a ddysgir o'r dull gweithredu hwn er mwyn gwella'r broses yn barhaus.

Hyfforddiant

Mae'r Cyngor yn darparu rhaglen hyfforddiant ar gydraddoldeb i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb a'u bod yn gallu ymdrin yn briodol â phawb y byddant yn dod i gysylltiad â hwy. Darperir y cyrsiau canlynol:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Cydraddoldeb o ran anabledd
- Ymwybyddiaeth o nam ar y golwg
- Ymwybyddiaeth o nam ar y clyw
- Iaith Arwyddion Prydain
- Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- Rhaglenni datblygu i fenywod
- Cynllun mentora

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddiant ar gydraddoldeb, caiff materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb sylw mewn hyfforddiant corfforaethol, yn enwedig mewn hyfforddiant sefydlu corfforaethol a hyfforddiant recriwtio.

Bydd y rhaglen hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei hadolygu a'i diweddaru i gynnwys pob un o'r nodweddion gwarchodedig, a bydd yn cael ei thargedu i ddiwallu anghenion gwahanol wasanaethau.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r modd y mae'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymhlith ei weithwyr, gan gynnwys drwy weithdrefnau asesu perfformiad i nodi anghenion o ran hyfforddiant a mynd i'r afael â hwy.

Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl. Mae wedi gwneud llawer o'r gwaith hwn i ddechrau drwy ei gynlluniau rhywedd, hil ac anabledd, ac yn fwy diweddar drwy ei Gynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae'r gwaith dan sylw wedi cynnwys y canlynol:

- rhaglenni gwaith blynyddol gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn hybu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â hil ymhlith plant mewn ysgolion a gweithdai;
- y gystadleuaeth calendr ysgolion blynyddol gyda Race Equality First;
- gweithio gyda Remploy i ddarparu cyfleoedd gwaith;
- gwella mynediad i'r adeiladau cyhoeddus a ddefnyddir fwyaf;
- cyrsiau hyfforddiant ar gydraddoldeb;
- rhaglen fentora;
- rhaglenni datblygu i fenywod, a gynhelir yn rheolaidd;
- asesiadau o effaith polisïau newydd a pholisïau a adolygir ar gydraddoldeb;
- digwyddiadau blynyddol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost;
- Gwasanaethau Tai yn gweithio tuag at y Wobr Enfys drwy Ganolfan Ragoriaeth LHDT.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn.

Atodiad 1

Ymgysylltu ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Tachwedd 2011

Adroddiad gan y Swyddog Polisi Ymgynghori

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cyngor Bro Morgannwg

Cyflwyniad

Er mwyn llywio amcanion cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i gweithredu gan Gyngor Bro Morgannwg gyda'r bwriad o rannu'r canlyniadau â phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol y Cyngor.

Prif nod y rhaglen ymgysylltu oedd ymgynghori â thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn cynrychioli nodweddion gwarchodedig (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol) i sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb, a bennwyd yn unol â gwaith ymchwil cenedlaethol, yn mynd i'r afael â'r materion o ran cydraddoldeb oedd bwysicaf ym marn trigolion y Fro.

Cafodd y sesiynau ymgynghori eu cynllunio hefyd i gasglu gwybodaeth am ba rwystrau yn y Fro sy'n atal pobl rhag cael mynediad i wasanaethau; pa fentrau a oedd yn arbennig o werthfawr ym marn y trigolion; a sut y dylid mesur y modd y caiff yr amcanion eu gweithredu.

Methodoleg

Cyfunodd swyddogion cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Heddlu De Cymru eu cysylltiadau cyfredol hwy â chysylltiadau cyfredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro i lunio rhestr o fudiadau gwirfoddol a mudiadau trydydd sector perthnasol a oedd yn gweithredu ym Mro Morgannwg. O'r rhestr honno, cafodd 67 o fudiadau a grwpiau cymorth eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglen ymgysylltu ac ymatebodd 30 o fudiadau i'r gwahoddiad hwnnw.

Cafodd sesiynau ymgynghori eu cynnal gydag aelodau o'r grwpiau canlynol: Grŵp Cymorth Dyspracsia'r Fro, Carers UK – Cangen Bro Morgannwg, SCOPE, Grŵp Gwahaniaethu ar sail Oed y Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn, Grŵp Gweithredol y Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn, Grŵp Rhannu Gwybodaeth ABCD Cymru, Grŵp Pobl Ifanc Pobl y Fro yn Gyntaf a Thîm Arweinwyr Pobl y Fro yn Gyntaf. Mynychodd dros gant o drigolion y Fro y sesiynau hyn.

Yn y sesiynau gofynnwyd i'r trigolion am eu barn ynghylch beth oedd y rhwystrau mwyaf oedd yn atal pobl rhag cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus yn y Fro, pa fentrau neu wasanaethau cymorth oedd yn arbennig o ddefnyddiol a pha gymorth pellach neu fentrau yn y dyfodol yr oedd eu hangen.

Yn ogystal â'r sesiynau hyn, cynhaliwyd dau grŵp ffocws. Roedd gweithwyr proffesiynol ym maes cydraddoldebau'n bresennol yn y grwpiau hynny. Cafodd y grwpiau canlynol o'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector eu cynrychioli yn y grwpiau ffocws: Age Concern, Advocacy

Matters, Chwaraeon Anabledd Cymru, Cyngor ar Bopeth, BAWSO, Cymorth i Fenywod, MIND Cymru, FACE, Cymdeithas Alzheimer, Cynulliad Merched Cymru, Cymdeithas MS, Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro, Atal y Fro, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd a Transgender Cymru.

Yn y grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr drafod rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus yn y Fro, ac yna gofynnwyd iddynt drafod amcanion drafft y Cyngor o ran cydraddoldeb. Canolbwyntiodd y drafodaeth ynghylch amcanion ar rwystrau y byddai angen eu goresgyn a mentrau llwyddiannus sydd eisoes ar waith yn y Fro.

Cafodd yr holl nodweddion gwarchodedig eu cynrychioli yn ystod y broses ymgysylltu.

Cafodd mudiadau a sefydliadau nad oedd modd iddynt fynychu'r un o'r grwpiau ffocws gyfle i ymateb yn ysgrifenedig i'r cam hwn yn y broses ymgynghori.

Canlyniadau

Caiff y sylwadau a wnaed amlaf yn ystod y sesiynau ymgynghori eu nodi isod. Mae'r sylwadau mwyaf cyffredin wedi'u nodi mewn print trwm.

Mynediad i wybodaeth:

- **Rhaid sicrhau bod gwybodaeth o bob math ar gael mewn fformat hygyrch. Yn rhy aml, ni chaiff gwybodaeth ei darparu mewn iaith ddealladwy**. Mae hynny'n wir o safbwynt oed, ethnigrwydd ac anabledd - nid yw darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu deall llawer o'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae cael mynediad i wybodaeth am wasanaethau Tai yn arbennig o anodd.

- **Mae cryn dipyn o wybodaeth ar gael ar wefannau, ond nid yw'r fformat hwn yn briodol ar gyfer llawer o'r trigolion.**

- Mae nifer o grwpiau gwirfoddol a gwasanaethau cymorth yn gweithredu yn y Fro ac yng Nghaerdydd, ond nid ydynt yn cael eu hyrwyddo'n dda. **Mae angen dulliau gwell o gyfeirio pobl at wybodaeth.**

- **Mae iaith glir yn hanfodol i wella mynediad**. Mae Pobl y Fro yn Gyntaf a Mencap yn dda iawn am gyflwyno gwybodaeth mewn iaith hygyrch.

Oed:

- Yn aml, caiff safbwyntiau a barn pobl ifanc a phobl hŷn eu diystyru ar sail oed.
- Mae gwariant ar bobl hŷn yn anghymesur o isel. Dylid egluro'r rhesymau am hynny.

Cyffredinol:

- Nid yw llawer o drigolion yn teimlo eu bod yn gallu cwyno am achosion o wahaniaethu, rhag ofn y byddant yn cael gwasanaeth o ansawdd is yn y dyfodol.

- Mae llawer o unigolion â nodweddion gwarchodedig yn aml yn teimlo bod eu **sylwadau/cwynion/barn yn cael eu diystyru gan gyrff cyhoeddus** – mae hynny'n wahaniaethu anuniongyrchol.

Anabledd:

- I drigolion ag anabledd, mae mynediad corfforol yn dal yn broblem fawr. Nid oes gan lawer o adeiladau rampiau effeithiol, dolenni clyw sy'n gweithio, er enghraifft. Mae bron yn amhosibl cael y rhan fwyaf o fusnesau preifat i chwarae eu rhan. Mae mynediad yn hybu integreiddio.

- Mae gwasanaethau eiriolaeth yn hanfodol i gynnwys pob rhan o'r gymuned a chynnwys trigolion o grwpiau gwarchodedig yn y broses o wneud penderfyniadau.

Drwy gydol y broses ymgysylltu, roedd y materion a godwyd yn adlewyrchu'r amcanion drafft. Mewn achosion lle mae'r sylwadau'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amcanion drafft, neu lle cawsant eu gwneud yn ystod trafodaeth am yr amcanion yn y grwpiau ffocws, cânt eu nodi isod.

Lleihau aildroseddu o safbwynt trais domestig.

Cytunodd y ddau grŵp y dylai hynny fod yn flaenoriaeth ac y dylai geiriad yr amcan fod yn ddealladwy.

Mae 'aildroseddu' yn awgrymu bod rhywfaint o drais domestig yn cael ei anwybyddu. Dylid newid 'Lleihau aildroseddu' i 'Lleihau'r troseddau mwyaf difrifol' (neu eiriau tebyg).

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Mae cymorth amlasiantaeth yn hanfodol.	Mae BAWSO yn cynnig lleoedd mewn lloches ac yn cynnal arolygon cartrefi i sicrhau bod cartrefi'n ddiogel.	Mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau (naill ai'r Heddlu, Bro Ddiogelach neu'r trydydd sector, er enghraifft, Atal y Fro). Gellir tybio bod lefelau trais domestig yn eithaf cyson ond bod lefelau

		adrodd ynghylch achosion yn isel.
Mae llawer o faterion diwylliannol yn gysylltiedig â thrais domestig, yn enwedig o safbwynt cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Gan fod y rhain yn faterion sensitif iawn, mae cael cyfieithwyr annibynnol yn hanfodol. Caiff trefniadau cyfieithu anffurfiol (gyda chymorth plant a chymdogion, er enghraifft) ei ddefnyddio'n aml, ac mae hynny'n hollol amhriodol.	Dylid hyrwyddo gwasanaethau Atal y Fro yn ehangach.	Byddai cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddir yn eu cylch wrth swyddogion yr heddlu yn eithrio nifer sylweddol o drigolion na fyddent yn teimlo'n ddigon hyderus i fynd atynt.
Rhaid gwneud mwy i sicrhau bod dioddefwyr yn fwy ymwybodol o wasanaethau.		
Dylai cyrff cyhoeddus roi mwy o gymorth i **grwpiau gwirfoddol gan fod y grwpiau hyn mewn sefyllfa well o lawer na sefydliadau megis y cyngor** a'r heddlu **i gynnig cymorth**.		

Lleihau achosion o aflonyddu drwy godi ymwybyddiaeth, drwy addysg a thrwy ddefnyddio'r llinell gymorth ar gyfer troseddau casineb. Neu **Lleihau achosion o aflonyddu ar sail anabledd** fel uchod.

Gan nad trigolion ag anabledd yw'r unig bobl sy'n dioddef achosion o aflonyddu, roedd y ddau grŵp ffocws yn teimlo nad oedd ail fersiwn yr amcan

yn addas. Roeddent yn teimlo y dylai geiriad yr amcan gyfeirio efallai at aflonyddu ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Teimlwyd hefyd bod y canlyniad hwn yn rhy eang i fod yn effeithiol, a theimlwyd bod gwrthdaro o fewn yr amcan. Awgrymwyd **y dylai codi ymwybyddiaeth o wasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag achosion o aflonyddu, neu atal achosion o aflonyddu, arwain at fwy o adrodd ynghylch achosion o'r fath**, ac felly byddai hynny'n rhoi'r argraff bod cynnydd yn nifer yr achosion o drais domestig.

Awgrymwyd y byddai "mwy o hyder i adrodd ynghylch achosion o aflonyddu" neu "gwaith i wella'r broses o adrodd ynghylch pwy sy'n aflonyddu ar bwy" (neu eiriau tebyg) yn effeithiol.

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Bydd codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn anodd iawn. Ble byddai hyfforddiant/ addysg yn digwydd?	Mae gwasanaethau Cymru Ddiogelach yn dda, ond ceir diffyg hyder yn yr heddlu ymhlith y cyhoedd.	Mae 'aflonyddu' yn derm goddrychol, ac felly gallai fod yn anodd iawn ei fesur.
Ceir canfyddiad ymhlith aelodau'r cyhoedd na fydd yr heddlu yn gwneud dim. Nid oes hyder yn unrhyw rai o'r asiantaethau cyhoeddus sy'n gweithio i leihau achosion o aflonyddu.		Byddai'n amhosibl mesur 'aflonyddwch' neu 'hyder' er mwyn adrodd yn eu cylch.
Ni fydd trigolion yn defnyddio'r llinell gymorth os nad oes ganddynt hyder yn yr asiantaethau sy'n gyfrifol am weithredu ar ôl cael galwadau.		
Dylid gwneud mwy i wneud y Cyngor ac eraill yn ymwybodol o'r effaith y mae achosion o aflonyddu'n ei chael ar fywyd pobl.		

Rhaid hyrwyddo gwasanaethau cyfryngu.		
Nid yw llawer o **bobl yn sylweddoli beth yw 'aflonyddu' mewn gwirionedd**. Rhaid mynd i'r afael â hynny.		

Adolygu mynediad i wasanaethau allweddol megis gwasanaethau hamdden, tai, gofal preswyl ac addysg ar gyfer pobl hŷn, plant a phobl ifanc, **pobl ag anhwylderau iechyd meddwl, Sispiwn-Teithwyr, pobl drawsrywiol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid,** a chyfeiriadedd rhywiol.

A

Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn, plant a phobl ifanc, **pobl ag anhwylderau iechyd meddwl, Sispiwn-Teithwyr, pobl drawsrywiol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid,** a chyfeiriadedd rhywiol.

Pan gyflwynwyd yr amcanion hyn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod cysylltiad mor agos rhwng y ddau fel nad yw'n bosibl eu gwahanu. Ni ellir ymgymryd â'r naill heb y llall.

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Mae casglu data cywir i fesur mynediad i wasanaethau'n hanfodol. I wneud hynny, rhaid i ffurflenni casglu data gael eu hysgrifennu'n sensitif – yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl.	Mae MINDful Employer* yn sicrhau bod agwedd cyflogwyr at faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl yn gywir.	Byddai data cadarn ar bwy sy'n defnyddio gwasanaethau yn gyfystyr â llwyddiant.
Mae rhai cymunedau, yn enwedig sipsiwn a theithwyr, yn gyndyn iawn o ddarparu gwybodaeth fonitro oherwydd pryderon y byddant yn cael gwasanaeth o safon is.	Mae'r Marc Enfys* yn sicrhau bod agwedd cyflogwyr at faterion yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol yn gywir.	Grwpiau o drigolion â nodweddion gwarchodedig yn cymryd rhan yn fwy helaeth mewn gwasanaethau cymunedol.

Bydd llawer o bobl yn teimlo y byddant yn cael eu heithrio o wasanaethau os byddant yn datgelu anghenion. Rhaid mynd i'r afael â'r pryder hwn cyn y gellir gwneud cynnydd.	*Pe bai mentrau tebyg i'r rhain yn dod yn rhan o broses gaffael y Cyngor, byddai cwmnïau lleol hefyd yn codi safonau.	
Rhaid esbonio'n glir wrth ddefnyddwyr gwasanaeth *pam* yn union yr ydym yn casglu data.	Mae Age Concern, Carers UK, ABCD Cymru i gyd yn cynnig cymorth i lenwi ffurflenni asesu/ffurflenni hawlio budd-daliadau. Mae'n gymorth a werthfawrogir yn fawr gan drigolion.	
Dylai hyfforddiant ar gydraddoldebau fod yn orfodol i staff.		
Mae rhai trigolion, yn enwedig pobl hŷn, yn teimlo bod gwarth ynghlwm wrth wneud cais am rai gwasanaethau cymorth a chael gwasanaethau o'r fath.		

- Roedd y ddau grŵp ffocws yn cytuno y byddai'n rhaid i unrhyw raglen codi ymwybyddiaeth fod yn rhaglen raddol wedi'i thargedu yn hytrach nag yn rhaglen gyffredinol ar 'faterion yn ymwneud â chydraddoldeb'.

- **Mae lefel y wybodaeth a'r cymorth yng nghyswllt yr holl faterion sy'n ymwneud ag anabledd ar draws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn amrywio'n fawr**. Dylai lefel y wybodaeth a'r cymorth fod yr un fath ym mhob man.

- **Mae codi ymwybyddiaeth o anghenion unigolion yn hanfodol**. Nid yw'r staff yn deall y problemau sy'n effeithio ar ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth, ac felly gallant ofni rhoi cleientiaid mewn perygl neu ofni eu tramgwyddo neu dramgwyddo pobl eraill – nid yw'r perygl hwnnw byth yn un difrifol.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cyngor Bro Morgannwg

Creu cyfleoedd dysgu hygyrch sy'n helpu pobl o bob oed i ddatblygu sgiliau ac sy'n helpu i ddileu rhwystrau i gyflogaeth.

Teimlwyd y dylai'r amcan esbonio nad ar gyfer pobl ifanc yn unig y mae hwn, oherwydd ceir canfyddiad bod gwasanaethau addysg yn canolbwyntio ar bobl o oedran ysgol, er nad yw hynny'n aml yn wir.

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Cost cyrsiau yw'r prif rwystr – yn enwedig ar gyfer pobl hŷn.	Mae Gyrfa Cymru yn cynnig llawer o gymorth i bobl iau.	Nifer fwy o unigolion o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cofrestru ar gyrsiau.
Yn aml, mae cyfleoedd i bobl ag anabledd gael hyfforddiant wedi dyddio i raddau helaeth, ac felly **nid ydynt yn cynnig gobaith realistig o gyflogaeth**.	Lleoliadau Remploy	
Nid yw pobl nad ydynt wedi gweithio yn gyfarwydd â gwneud penderfyniadau – nid yw hynny'n rhywbeth y gallant ei ddysgu o'r cyrsiau a gynigir ar hyn o bryd.	Ymddiriedolaeth Shaw	
Ceir nifer o gyrsiau, ond nid oes modd cael gwybodaeth amdanynt o un pwynt cyswllt. Nid oes gan Ganolfannau Gwaith ac ati restr gyflawn o bopeth a gynigir.	Canolfan Gwirfoddol y Fro	
Ceir diffyg cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl ag anableddau sy'n chwilio am waith.		
Mae iaith a llythrennedd yn rhwystrau mawr. Nid		

oes digon o gyrsiau'n cael eu cynnig i fynd i'r afael â hynny.		
Nid yw trigolion, yn enwedig y sawl sy'n dod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn teimlo y bydd cyrsiau'n arwain at gyflogaeth.		
Rhaid i ddarparwyr addysg/hyfforddiant ymgysylltu â darpar ddefnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod y cyrsiau cywir yn cael eu cynnig.		

Gwella'r modd yr ydym yn **monitro** pwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau a sut yr ydym yn **cynnwys** pobl wrth lunio gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.

Roedd cyfranogwyr yn ystod pob cam o'r broses ymgynghori yn teimlo bod **casglu data monitro effeithiol yn hanfodol i adnabod achosion o wahaniaethu**.

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Yn achos unrhyw gynnydd yn y data monitro a gesglir, **rhaid esbonio'n glir o'r dechrau pam yr ydym yn casglu data ac at ba ddiben y bydd yn cael ei ddefnyddio**. Rhaid i drigolion deimlo eu bod yn cael eu cynnwys er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ac nid er mwyn ticio blwch yn unig.	Gallai sicrhau bod data monitro dienw ar gael yn gyhoeddus ddangos agwedd gynhwysol cyrff cyhoeddus.	Dulliau cywir o adrodd, sy'n dangos cynnydd yn nifer y trigolion â nodweddion gwarchodedig sy'n cymryd rhan mewn prosesau ymgynghori/ ymgysylltu.
Rhaid mynd i'r afael â phryderon ynghylch pam		

y mae data'n cael ei gasglu – rhaid bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth hyder yn y diben y caiff gwybodaeth fonitro ei defnyddio ar ei gyfer.		
Rhaid defnyddio'r un broses/categorïau ar draws pob gwasanaeth.		
Ceir canfyddiad bod gwaith ymgynghori weithiau'n broses adweithiol. Yn hytrach, **dylid trafod yn barhaus** â defnyddwyr gwasanaeth.		
Mae angen cyfres bendant o egwyddorion ar gyfer gwaith ymgynghori/ymgysylltu.		

- Rhaid bod proses ar waith i rannu amcanion a chanlyniadau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol â'r trigolion. Efallai mai mudiadau gwirfoddol sydd yn y sefyllfa orau i rannu gwybodaeth.

- **Rhaid ei bod yn glir hefyd pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r amcanion**.

Codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol, ac ymestyn hyfforddiant ar gydraddoldeb i ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchodedig.

Rhwystrau i'w goresgyn	**Mentrau yn y Fro**	**Mesur llwyddiant**
Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i hyfforddiant fod yn ddiddorol a herio canfyddiadau unigolion.	Mae SCOPE, BAWSO, MIND, Age Concern, Vibe Experience, Anabledd Cymru a Menter y Fro i gyd yn cynnal cyrsiau hyfforddiant.	
Dylai hyfforddiant ar gydraddoldebau fod yn		

rhan o hyfforddiant sefydlu corfforaethol.		
Hyd yn oed os ydynt wedi'u hyfforddi i adnabod achosion o wahaniaethu, mae'n annhebygol y bydd y staff yn herio'u cydweithwyr.		

- **Rhaid hyfforddi'r staff i ddeall anghenion unigolion yn well**. Dyma'r unig ffordd o sicrhau ymwybyddiaeth a pharch gan y naill ochr mewn perthynas â'r llall.

- Roedd y ddau grŵp ffocws yn teimlo, yn enwedig ar gyfer yr amcan hwn, y dylai Cyngor Bro Morgannwg osod y safon ar gyfer yr ardal a bod yn fodel o arfer da.

Casgliad

Mae'r sylwadau a wnaed gan y trigolion yn ystod y broses ymgysylltu yn awgrymu bod gan yr amcanion drafft ffocws da a'u bod yn mynd i'r afael â materion sy'n flaenoriaeth i drigolion yn y Fro. Ymddengys fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cadarnhau bod y data ymchwil a gasglwyd yn genedlaethol, a ddefnyddiwyd i ddrafftio'r amcanion, yn adlewyrchu profiad trigolion y Fro.

Wrth ysgrifennu'r cynllun drafft, bydd angen ystyried diwygio geiriad rhai amcanion er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ac yn hawdd eu deall. Mewn mannau, bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y materion mwyaf cyffredin a godwyd gan y cyfranogwyr.

Yn ogystal, bydd angen i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft egluro sut y bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion hyn yn cael ei asesu a'i fonitro, a sut y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu wedyn â'r trigolion.